

# Creu hunaniaeth grŵp

Mae'r gweithgaredd yma yn eich helpu i greu enw a hunaniaeth i'ch grŵp.

Os ydych chi'n defnyddio grŵp sydd gennych chi eisoes, fel grŵp cymunedol neu gyngor ysgol, mae'n dal yn weithgaredd defnyddiol i'ch helpu i benderfynu beth sy'n bwysig i chi.


## Adnoddau

Bydd arnoch chi angen:


- Aelodau'r grŵp
- Darn mawr o bapur – gorau po fwyaf (e.e. fflipsiart)
- Peniau lliw
- Dewisol – unrhyw ddeunyddiau creadigol hoffech chi, er enghraifft llathr, sticeri, rhubanau...

## Gweithgaredd

1. Rhowch eich darn mawr o bapur yng nghanol y grŵp. Plygwch y ddwy ochr i mewn fel bod yr ymylon yn cwrdd yn y canol. Dyma eich 'cwpwrdd hunaniaeth grŵp'.
2. Ar flaen y 'drysau' nodwch y **negeseuon allweddol** rydych chi eisiau i bobl eraill wybod am eich grŵp. Dewiswch 2 neu 3.
3. Tu mewn i un 'drws' ysgrifennwch sut byddwch chi'n **trefnu** eich grŵp. Meddyliwch am y cwestiynau yma:
  - Pryd byddwch chi'n cwrdd?
  - Ble byddwch chi'n cwrdd?



- Oes angen i chi wahodd unrhyw un i ddod i gefnogi eich cyfarfodydd? Er enghraifft oedolyn cefnogol?
- Sut byddwch chi'n gwahodd neu'n annog pobl eraill i ymuno â'ch grŵp?



4. Tu mewn i'r 'drws' arall ysgrifennwch y **rolau** yn eich grŵp a phwy allai gyflawni nhw. Meddyliwch am y cwestiynau yma:
- Fyddwch chi'n ethol cadeirydd i arwain y cyfarfodydd, neu fyddwch chi'n cymryd eich tro i gadeirio?
  - Fyddai'n well gennyh chi beidio â chael cadeirydd o gwbl?
  - Sut byddwch chi'n cofnodi beth sy'n digwydd yn eich cyfarfodydd? Fyddwch chi'n penodi rhywun i wneud cofnod neu'n cymryd eich tro?

5. Tu mewn i'r cwpwrdd (ar y dudalen gefn) ysgrifennwch eich **gwerthoedd allweddol** ar gyfer cydweithio yn y cyfarfodydd a'r tu allan. Efallai hoffech chi ddewis 3-5. Gallai fod yn help i chi feddwl am yr hawliau plant sydd gan bawb yn eich grŵp o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, er enghraifft:
- Yr hawl i fod yn gyfartal heb wynebu camwahaniaethu (Erthygl 2)
  - Yr hawl i roi barn ar benderfyniadau (Erthygl 12)
  - Yr hawl i fynegi eich hunan (Erthygl 13)
  - Yr hawl i gael gwybodaeth (Erthygl 17)

## Myfyrio

- Trafodwch bob rhan o gwpwrdd hunaniaeth eich grŵp. Ydych chi eisiau **newid unrhyw beth** rydych chi wedi ei ysgrifennu?
- Ydy **enw eich grŵp** yn adlewyrchu eich hunaniaeth?
- Allech chi greu **neges allweddol** am eich grŵp neu eich ymgyrch?

**Estyniad:** Addurnwch eich 'cwpwrdd hunaniaeth grŵp' ag unrhyw ddeunyddiau hoffech chi – i adlewyrchu 'personoliaeth' eich grŵp.

Gallwch chi gadw 'cwpwrdd hunaniaeth eich grŵp' a'i arddangos yn eich cyfarfodydd i'ch atgoffa am hunaniaeth a phenderfyniadau eich grŵp.

## Amrywiad

Defnyddiwch flwch cardbord a chreu fersiwn 3D

## Cysylltiadau Defnyddiol

[Gallwch chi ddefnyddio'r cardiau gweithgareddau yma](#) i benderfynu beth hoffech chi wneud fel grŵp.